**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Jonathan Morgan | (Ceidwadwyr) |
| Karen Sinclair | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Pauline Jarman

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-28-2002 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor yn ôl o doriad y Nadolig.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau iddo sôn yn fras yn y cyfarfod ar 26ain Tachwedd fod y Pwyllgor yn trefnu seminar amser cinio ar ddeddfwriaeth sylfaenol i holl Aelodau'r Cynulliad a'u hymchwilwyr. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y caiff y seminar hwn ei gynnal mewn cydweithrediad â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yr wythnos nesaf, 22ain Ionawr am 13.00 – 13.30pm yn Ystafelloedd Cynadledda A/B.

2.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod Trydydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfau, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod ar 29ain Hydref, bellach wedi'i gyhoeddi. Rhoddodd y Clerc gopïau i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau i gysylltu â'r Clerc pe bai angen rhagor o gopïau argraffedig arnynt.

**Eitem 3: Materion y Cynulliad i'w Hystyried**
LC594 – Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol ynglŷn â chynnwys Adran 32 yn y pwerau galluogi gan fod hwn yn ymddangos fel gwall. Gellir cywiro hwn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

3.3 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd dri sylw y dylid eu cofnodi yn yr adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC594 (Adroddiad).

**LC595 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.5 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.6 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol ynglŷn â chynnwys Adran 13 yn y pwerau galluogi gan fod hwn yn ymddangos fel gwall ac yn Rheoliad 1(1) dylai "Gorchymyn" fod yn "Rheoliadau". Gellid cywiro'r rhain drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

3.7 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd bedwar sylw y dylid eu cofnodi yn yr adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.8 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC595 (Adroddiad).

**LC596 – Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.9 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.10 Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol fod y rhai hynny sy'n gyfrifol am y Rheoliadau wedi cyflwyno fersiwn diwygiedig o'r Rheoliadau a oedd yn delio â'i sylwadau. Felly, cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.11 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC596 (Adroddiad).

**LC597 – Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.12 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.13 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.14 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC597 (Adroddiad).

**LC598 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) a (Ffioedd Deintyddol) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.15 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.16 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC598 (Adroddiad).

**LC599 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003**
3.18 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.19 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gwallau drafftio ymddangosiadol ynglŷn â chynnwys "Rhif 2" yn y teitl, gwall yng

ngeiriad agoriadol rheoliad 3 a’r pwynt y dylai Rheoliad 3(a)(i) ddarllen “gronynellau Acetylcysteine”. Gellid cywiro hwn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC599 (Adroddiad).

**LC600 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) a (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003**

3.21 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.22 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i’r casgliad fod mater i’w godi o dan reol Sefydlog 11.5. Mae’r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r gwall drafftio ymddangosiadol yn Rheoliad 2(2)(a). Gellid cywiro hwn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

3.23 Gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC600 (Adroddiad).

**LC601 – Rheoliadau Cafa cafa mewn Bwyd (Cymru) 2002**

3.25 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.26 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC601 (Adroddiad).

**LC602 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.28 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.29 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.30 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC602 (Adroddiad).

**LC603 – Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002**

3.31 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.32 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn yr adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC603 (Adroddiad).

**LC604 – Rheoliadau Tatws sy’n Deillio o’r Aifft (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.34 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.35 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.36 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC604 (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr gan Michael German AC, Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor, dyddiedig 20 Tachwedd 2002**
**LC543 – Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**
4.1 Yn unol ag awgrym y Pwyllgor, gwahoddodd y Cadeirydd drafodaeth ar yr ymateb i lythyr dyddiedig 6 Rhagfyr 2002 i Michael German AC, Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor ar **Orchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**. Ystyriodd y Pwyllgor fod y Gorchymyn yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 gan fod Rheoliad 5(2)(f)/(dd) yn cynnwys anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a Saesneg.

4.2 Gan fod y Gweinidog bellach wedi ymateb gyda'r hyn sy'n gyfystyr ag ymddiheuriad a derbyniad fod ei safbwynt yn anghywir, mae'r Pwyllgor yn barod y tro hwn i beidio â disgwyl iddo fynychu cyfarfod y Pwyllgor i drafod y materion hyn.

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Ionawr 2003.